# Ehangu Cyllid y Blynyddoedd Cynnar
# Briff Cyfathrebu

## Tachwedd 2022

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Ymwelodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan AS ac aelod dynodedig Plaid Cymru, Siân Gwenllian AS, â Chylch Meithrin Abergele lle cyhoeddon nhw gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella argaeledd gofal plant, rhoi hwb i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac ehangu gofal plant Dechrau'n Deg.

## Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

Mae'r blynyddoedd cynnar yn hanfodol bwysig ym mywyd plentyn, yn darparu cyfleoedd ffurfiannol a gosod y llwybr ar gyfer dysgu a datblygu tymor hwy. Mae buddsoddiad mewn gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar, fel y'i nodir yng ngweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer system Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar integredig, yn allweddol i hapusrwydd a lles plant ac yn gosod plant ar y llwybr i gyflawni eu llawn botensial.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnal ein hymrwymiad i raglen Dechrau'n Deg, sydd eisoes wedi cefnogi 36,000 o blant rhwng 0 a 4 oed a'u teuluoedd sy'n byw yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru. Yn unol â'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru mae'r ymrwymiad hwn wedi ei ymestyn i fynd ati yn raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg. Awdurdodau lleol ledled Cymru fydd yn cyflawni'r gwaith ehangu hwn ledled Cymru drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg, a byddant yn parhau i weithredu mewn ardaloedd penodol gan dynnu sylw at y cymunedau hynny sydd â'r angen mwyaf.

Dechreuodd cam cyntaf y gwaith ehangu ym mis Medi 2022 ac roedd yn cynnwys darparu pedair elfen graidd y rhaglen Dechrau'n Deg i 2,500 o blant ychwanegol ledled Cymru.

- Gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel am ddim i blant dwy a thair oed
- Gwasanaeth ymweliadau iechyd gwell
- Mynediad at gymorth rhianta
- Cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu

Bydd yr ail gam yn dechrau ym mis Ebrill 2023 ac yn canolbwyntio ar ddarparu elfen gofal plant o ansawdd uchel y rhaglen Dechrau'n Deg i oddeutu 3,000 yn rhagor o blant rhwng dwy a thair oed. Bydd plant sydd yn byw mewn cymunedau a nodir gan bob awdurdod lleol yn gymwys am 12.5 awr o ofal plant yr wythnos am 39 wythnos o'r flwyddyn. Mae hyn yn ychwanegol at isafswm o 15 sesiwn o ofal plant a/neu chwarae hyblyg yn ystod gwyliau'r ysgol.

## Cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg

Elfen hanfodol o'r gwaith ehangu hwn yw ymestyn a chryfhau darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a chynyddu nifer y plant sy'n gallu siarad Cymraeg ledled Cymru. Mae cyllid yn cael ei ddarparu i gefnogi lleoliadau presennol i ehangu i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ogystal â galluogi lleoliadau newydd i agor.

Mae CWLWM, sef y corff ymbarél ar gyfer y pum prif grŵp gofal plant (Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd; Mudiad Meithrin; Pacey Cymru; Blynyddoedd Cynnar Cymru a Clybiau Plant Cymru Kids Clubs) yn cael cyllid ychwanegol o hyd at £3.787 miliwn i ddarparu cymorth drwy swyddogion datblygu i leoliadau a gweithwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg presennol, yn ogystal â'r rheini sydd am ymuno â'r gweithlu gofal plant, gan gynnwys gwarchodwyr plant.

Bydd cefnogaeth yn cael ei darparu ar gyfer hyfforddiant iaith Gymraeg a bydd cymorth penodedig yn cael ei roi i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau. Bydd y cyllid yn cefnogi cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu presennol a'r rheini sy'n ymuno â'r gweithlu. Y nod fydd gwella sgiliau iaith Gymraeg a darparu rhaglen barhaus o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu gofal plant.

## Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £70 miliwn dros y tair blynedd nesaf i gefnogi'r gwaith o ehangu Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar o dan y Rhaglen Gyfalaf a'r Rhaglen Grantiau Bach ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar.

Mae'r cyllid ar gyfer cefnogi'r broses o ehangu gofal plant Dechrau'n Deg, y Cynnig Gofal Plant a/neu Dysgu Sylfaen o fewn lleoliad gofal plant. Bydd ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, cydleoli gwasanaethau a chynyddu nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael yn feini prawf hanfodol er mwyn cael mynediad at y cyllid hwn.

Bydd modd i awdurdodau lleol wneud cais am gyllid cyfalaf a byddant yn cael gwybodaeth am sut i wneud cais.

Bydd gan bob awdurdod lleol broses er mwyn gweinyddu elfen Grantiau Bach Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant y rhaglen. Bydd pob lleoliad gofal plant cofrestredig ledled Cymru yn gallu gwneud cais am grant bach i wella darpariaeth fel mannau chwarae awyr agored, prynu offer newydd, neu wneud gwaith ailwampio cyffredinol.

Mae'n gyfnod cyffrous, a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ar bob cam o'r rhaglen ehangu. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yma: Ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn raddol | LLYW.CYMRU

## Diolch i weithwyr gofal plant ledled Cymru

Gwrandewch ar y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn diolch i'r gweithlu gofal plant a chwarae yn y neges fideo fer hon.

Llywodraeth Cymru Cymunedau on Twitter: "Neges gan Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan i'r sector gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar. https://t.co/7LZb5ZbfIQ" / Twitter

**Paratowyd y Briff Cyfathrebu hwn gan Gangen Blynyddoedd Cynnar (Dechrau'n Deg) Llywodraeth Cymru FlyingStart2@llyw.cymru**